Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**
—
Welsh Parliament
**Health, Social Care and Sport Committee**

**Nicola Stubbins**
Llywydd, ADSS Cymru

15 Rhagfyr 2020

Annwyl Nicola

Diolch yn fawr i chi ac Alwyn am roi tystiolaeth wythnos diwethaf fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor i'r pandemig COVID-19. Yn ystod y cyfarfod, gwnaethoch godi nifer o faterion y mae'r Pwyllgor wedi gofyn i mi geisio rhagor o eglurder yn eu cylch.

**Canllawiau ynghylch rhyddhau cleifion o ysbytai**

Dywedoch wrthym fod y ffordd y caiff canllawiau ynghylch rhyddhau cleifion o ysbytai eu dadansoddi yn parhau i amrywio a'ch bod yn ymwybodol o enghreifftiau ledled Cymru o gleifion yn cael eu rhyddhau o ysbytai i gartrefi gofal heb gael canlyniad prawf ar gyfer y cleifion hynny.

A fyddech cystal â darparu rhagor o wybodaeth am y pwyntiau a ganlyn:

- A yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd, a pha mor eang yw'r broblem?
- A oes unrhyw ranbarthau neu ardaloedd penodol yng Nghymru lle mae hyn yn fwy o broblem?
- Pa brosesau sydd yn eu lle i gofnodi achosion fel hyn?
- Pa gamau sy'n cael eu cymryd os canfyddir bod hyn wedi digwydd?

**Profi staff yn wythnosol**

Dywedoch wrthym hefyd fod rhai cartrefi gofal wedi stopio profi staff yn wythnosol oherwydd materion ynghylch capasiti i drefnu a chynnal profion; yr amser y mae'n ei gymryd i ganlyniadau'r profion ddod yn ôl; a diffyg hyder yn y system brofi yn gyffredinol.

A allwch ddweud wrthym:

- Pa mor eang yw'r broblem hon?
- Beth sy'n digwydd pan fo cartref gofal yn optio allan o'r rhaglen brofi?

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
0300 200 6565


**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
0300 200 6565

**Casglu data a sicrhau bod y data hyn yn hygyrch**

Yn olaf, gwnaethom ofyn i chi a yw data amserol a digonol yn cael eu coladu'n ganolog ynghylch dangosyddion gofal cymdeithasol allweddol i helpu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau yn ystod y pandemig, gan gynnwys nodi anghenion, yn ogystal â chomisiynu gwasanaethau a dyrannu adnoddau iddynt. Dywedoch wrthym fod bylchau yn y data sy'n cael eu casglu a hygyrchedd y data hyn, a gwnaethoch gytuno i anfon nodyn esboniadol ar y bylchau yn y data sy'n cael eu casglu gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd a sut y gellir gwella'r broses hon.

Rydym yn gobeithio cynnal sesiwn dystiolaeth yng nghwmni'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y flwyddyn newydd, a hoffem drafod y materion hyn, yn ogystal â materion eraill, yn y sesiwn honno. O gofio hynny, byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddarparu'r wybodaeth uchod erbyn dydd Gwener 8 Ionawr.

Yn gywir,



Dr Dai Lloyd AS
**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**